YR ADOLYGIAD O BLISMONA

GAN SYR RONNIE FLANAGAN

CRYNODEB AC ARGYMHELLION YR ADRODDIAD INTERIM

ADRODDIAD INTERIM YR ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O BLISMONA A GOMISIYNWYD GAN YR YSGRIFENNYDD CARTREF AC A GYNHALIWYD GAN SYR RONNIE FLANAGAN.

Rhagair

Hwn yw adroddiad interim yr Adolygiad Annibynnol o Blismona yng Nghymru a Lloegr, a gomisiynwyd gan y Gwir Anrhydeddus John Reid AS, fel yr Ysgrifennydd Cartref, o fewn y Cylch Gwaith a nodir yn Atodiad A.

Mae'r Adolygiad yn ceisio archwilio, mewn modd wedi'i dargedu, pedwar maes o bwysigrwydd penodol, sydd â'r potensial i gyflawni gwelliannau sylweddol wrth gyflwyno plismona yn y blynyddoedd i ddod. Y pedair 'ffrwd waith' benodol yma, yw 'Lleihau Biwrocratiaeth'; 'Prif Ffrydio Plismona Cymdogaeth'; 'Gwneud y Defnydd Mwyaf Effeithiol o Adnoddau'; a 'Gwella Atebolrwydd Lleol'. Fel y cytunwyd ar y cychwyn, mae mwy o ganolbwyntio wedi bod, hyd yma, ar y ddau faes cyntaf, ac mae'r adroddiad interim hwn yn cyflwyno argymhellion i fynd i'r afael yn gyflym â'r heriau a wynebir mewn perthynas â Lleihau Biwrocratiaeth a Phlismona Cymdogaeth. Bydd argymhellion ar Atebolrwydd Lleol a Gwneud y Defnydd Mwyaf Effeithiol o Adnoddau yn dilyn yn yr adroddiad terfynol. Nid yw hyn i'w ddehongli mewn unrhyw ystyr fel awgrym bod y rhain yn bwysicach. Ni ddylai darllenydd ychwaith ystyried y ffrydiau gwaith fel rhai 'annibynnol' mewn unrhyw ffordd. Mae cyswllt anorfod rhyngddynt.

Y nod yn amlwg oedd osgoi'r broses hir iawn a fyddai'n gysylltiedig ag adolygiad cynhwysfawr o blismona yn ei gyfanrwydd, ond yn lle hynny canolbwyntio'n fwy hwylus ar y pedwar maes allweddol hwn sydd, y mae'r gwaith hyd yma wedi'i gadarnhau yn wir, yn sylweddol ac yn hanfodol i lwyddiant plismona yng Nghymru a Lloegr yn y dyfodol. Fel y nodaf ymhellach isod, felly, nid yw'r ffrydiau gwaith hyn yn cael eu hystyried mewn unrhyw ystyr fel rhai sy'n cynrychioli'r cyfan sy'n mynd ymlaen mewn plismona. Rhaid eu gweld yng nghyd-destun y tirlun plismona cyflawn ac yn ategol at waith cyfredol pwysig mewn meysydd fel gwrthderfysgaeth, mynd i'r afael â throseddu difrifol a throseddu cyfundrefnol, 'moderneiddio'r gweithlu' ac ati (Dylid nodi y defnyddir termau fel 'plismona' a'r 'teulu plismona' i bwysleisio pwysigrwydd partneriaethau, ac nad ydym yn rhoi sylw i'r 'heddlu' yn unig).

Dylid dehongli'r adroddiad fel adroddiad interim i raddau helaeth iawn. Er fy mod yn fodlon â'r ymateb helaeth i'n cais cyhoeddedig am gyfraniadau at yr Adolygiad, mae llawer i'w wneud eto. Rwy'n arbennig o awyddus i ymgymryd â gwaith ymgynghori cyhoeddus ehangach o lawer wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Mawr yw fy nyled i lawer o'r bobl a sefydliadau am roi gymaint o'u hamser a'u hymdrech i mi yn y gwaith hwn, a byddant wrth gwrs yn cael cydnabyddiaeth briodol yn yr adroddiad terfynol y gobeithiaf ei gyflwyno'n gynnar y flwyddyn nesaf.



Syr Ronnie Flanagan GBE QPM

Cyflwyniad

Ni fu adeg erioed pan na fu'r galw am blismona effeithiol yn gryfach. Mae pobl yn daer yn chwilio am ymdeimlad o sicrwydd o fewn eu cymuned eu hunain ac eisiau i'r gymuned honno ei hun gael ei diogelu rhag bygythiadau ehangach byd y gwelir ei fod yn mynd yn lle mwy peryglus, er gwaetha'r ffaith bod arolygon yn dangos bod hyder yn yr heddlu yn cynyddu.

Gwelais fod yr Adolygiad Annibynnol hwn wedi cael croeso cynnes gan y gwasanaeth heddlu ei hun, gan awdurdodau heddlu ac yn wir gan gymaint o rai eraill sydd yn cyfrannu'n weithredol mewn modd mor gadarnhaol. Mae'n angenrheidiol wrth gwrs gosod pedair elfen gydrannol yr Adolygiad yn y cyd-destun plismona ehangach. Nod yr adran agoriadol fer hon, felly, yw rhoi'r ymatebion sy'n dilyn mewn cyd-destun priodol.

Rwy'n rhannu cred llawer o bobl yn y maes plismona bod yr Adolygiad yn un amserol, yn sicr nid oherwydd unrhyw deimlad bod argyfwng ar fin digwydd, ond yn sgil y cyfleoedd go iawn sy'n bodoli i wneud newid sylweddol cadarnhaol yn ansawdd y plismona a gyflwynwn.

Teimlaf fod archwiliad o'r degawd diwethaf o ran plismona yn dangos bod y 'teulu plismona' yn derbyn yr heriau perfformiad a osodwyd, ac mae'n ei ddangos yn cyflawni gostyngiadau yn gyson mewn troseddu ochr yn ochr â gwelliannau ar draws ystod eang o dargedau perfformiad eraill. Mae'r cyfnod hwn o welliant wedi'i yrru gan arweinyddiaeth â ffocws uchel yn ogystal â rhai newidiadau sylfaenol mewn meysydd fel ymdrin â gwybodaeth, parch at amrywiaeth, prosesau ymchwiliol, a chymwysiadau technoleg.

Er bod cymariaethau rhyngwladol yn ddiarhebol o anodd eu gwneud, mae'n ddiau yn wir bod gan blismona Prydain, mewn termau proffesiynol, enw da cryf iawn ac mae'n parhau i gael ei gysylltu ag arloesedd a gwelliant. Mae sylwebyddion tramor yn gwneud sylwadau felly wrthyf yn bersonol yn aml. Maent o'r farn, er enghraifft, bod y rôl cydlynu cymdeithasol a fabwysiadwyd gan y gwasanaeth, yn un unigryw bron.

O safbwynt personol, rwyf wedi bod yn fodlon iawn â'r parodrwydd, ar bob lefel o fewn y maes plismona, i groesawu newid. Wrth gwrs, mae'n rhaid i ni newid os yw'r gwasanaeth i gadw'n gyfochrog â'r datblygiadau cyflym yn y gymdeithas Brydeinig. Er nad yw'n fwriad gennyf ymgymryd ag archwiliad amgylcheddol llawn yma (gellir gweld elfennau o hynny yn yr adroddiadau sy'n asesu'r heriau cyffredinol sy'n wynebu plismona, fel yr Asesiad o'r Bygythiad Cenedlaethol ac Asesiadau Strategol), serch hynny gall fod yn werth nodi rhai o haenau allweddol newid.

Ar lefel genedlaethol, mae bygythiad terfysgaeth newydd a mwy nerthol yn dod i'r amlwg wedi dod yn brawf llym o fedr a chryfder yr heddlu. Gellir gweld heriau tebyg,

ond rhai llai amlwg weithiau, ar draws ystod yr hyn a alwn bellach yn 'wasanaethau amddiffynnol'. Mae bygythiad troseddu cyfundrefnol, yr angen i ymgymryd ag ymchwiliadau mwy cymhleth ac i ymdopi ag amrywiaeth eang o ddigwyddiadau yn ei gwneud yn ofynnol i bob heddlu ail-flaenoriaethu ei ddefnydd o adnoddau. Daw hyn ar yr union adeg pan fo anghenion a disgwyliadau cyhoeddus ar lefel leol iawn yn dod yn fwyfwy amlwg. Mae goddefgarwch ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi lleihau wrth ddeall yn well ei effaith wirioneddol ar fywydau pobl. Mae barn a goleddir yn gyffredin bod materion fel troseddu sy'n gysylltiedig ag yfed ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan bobl ifanc yn broblem yr heddlu yn unig, wedi gwreiddio'n gadarn.

Yr hyn sy'n cysylltu pryderon yr ardal leol â lefelau bygythiad rhyngwladol yw'r syniad holldreiddiol o risg. Ni ddangosir hyn yn well yn unman nag mewn perthynas â mater troseddwyr peryglus. Lle'r oedd plismona unwaith yn ymwneud yn bennaf ag arestio ac euogfarnu'r unigolion hyn, bellach mae mewn sefyllfa lle mae'n gysylltiedig yn anorfod â phartneriaid eraill fel y Gwasanaeth Prawf wrth reoli'r risg barhaus a grëir gan bobl felly.

Yn y cyfnod hwn o newid cyflym, yn cael ei yrru gan dechnoleg newydd a globaleiddio, er ei fod yn ganmoliaeth efallai bod pobl yn edrych at blismona am atebion, mae'n rhaid i ni gyd sylweddoli bod 'plismona' yn llawer rhy bwysig, yn llawer rhy wrthdrawol ar ein bywydau ni oll, i'w adael i'r heddlu'n unig. Dim ond lle mae'r heddlu'n gweithio mewn partneriaeth wirioneddol effeithiol â'r holl gymunedau y maent yn bodoli i'w gwasanaethu y gellir cael yr atebion. Yn y cyd-destun hwn y mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddeall heriau newydd y 'Gymdogaeth Fyd-eang' a blaenoriaethu adnoddau yn unol â hynny.

Defnyddiaf y term blaenoriaethu yn fwriadol iawn gan y deëllir yn iawn beth yw'r hinsawdd ariannol bresennol ar draws y gwasanaeth. Cydnabyddir bod plismona wedi mwynhau cyfnod cynaledig o dwf yn ei adnoddau. Yr her newydd yw sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau oll a bod y dewisiadau sy'n gysylltiedig â'u defnyddio – er enghraifft, wrth roi sylw i'r ddau faes o berygl mawr posibl a llawer mwy o faterion lleol – yn cael eu deall yn glir ac y cyfrifir amdanynt. Byddaf, wrth gwrs, yn dod yn ôl at hyn eto yng nghorff fy adroddiad.

Canfûm fod 'teulu'r heddlu' wedi gweld yr Adolygiad fel cyfle i fod yn radical. Hwn yn sicr yw'r amser i ni ganfod ffyrdd 'craffach' o lawer i fynd o amgylch ein busnes. Codir rhai cyfleoedd yng nghorff fy adroddiad, yn ymwneud â meysydd fel y broses bresennol ar gyfer cofnodi troseddu. Llawn gymaint, teimlaf fod angen i ni fod yn radical o ran sut y gallwn sicrhau gwelliant yn y modd y gall rhannau gwahanol o'r sector cyhoeddus gyfuno'n fwy effeithiol i ddelio â materion lleol.

Mae'n rhaid bod ail-gydbwyso rhwng gofynion plismona sy'n cael eu gyrru'n ganolog a'r pwyslais cynyddol ar gyflawni'r hyn a ddymunir yn lleol. Yn y cyd-destun hwn mae'n hanfodol bwysig i wella mecanweithiau ar gyfer atebolrwydd lleol. Er bod hyn yn rhywbeth yr wyf yn ei drafod isod, mae'n rhywbeth y byddaf yn mynd yn ôl ato'n fanylach o lawer yn fy adroddiad terfynol.

Rwy'n hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad interim hwn, ond byddaf yn awyddus iawn i glywed ymatebion pobl i'r syniadau a'r argymhellion y mae'n eu cynnig. Er bod argymhellion y credaf fod ganddynt botensial i greu gwelliannau go iawn mewn plismona, rwy'n edrych ymlaen at barhau â'r gwaith hwn ac i gynhyrchu adroddiad terfynol yr hyderaf y bydd yn cyflwyno syniadau pellach ar gyfer datblygiadau pwysig yn y ffyrdd y caiff plismona ei gyflwyno yng Nghymru a Lloegr.

Y Cyd-destun

Er mai adroddiad interim yn unig yw hwn lle'r wyf yn ceisio bod yn gryno, credaf mai teilwng fyddai gosod y gwaith, hyd yn oed yn yr adroddiad hwn, mewn ychydig o gyd-destun hanesyddol.

Sefydlwyd heddlu sifil go iawn cyntaf Ynysoedd Prydain â strwythur a ffurfwisg gan Syr Robert Peel pan oedd yn Brif Ysgrifennydd Iwerddon, trwy Ddeddf Cwnstabliaeth Iwerddon 1822. Fe wnaeth hyn mewn gwirionedd ragflaenu sefydlu'r Heddlu Metropolitan o saith mlynedd.

Er gwaethaf cyd-destun newidiol iawn plismona yn yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain, mae gwerthoedd sylfaenol y gwasanaeth heddlu, fel y'u crynhoir yn y naw egwyddor sy'n seiliedig ar y cyfarwyddiadau cyffredinol a ddosbarthwyd i bob aelod o'r Heddlu Metropolitan pan gafodd ei sefydlu ym 1829, yn parhau yn ddilys iawn hyd heddiw yn fy marn i.

Nodir yr egwyddorion hyn isod:

NAW EGWYDDOR PLISMONA

1. Atal trosedd ac anhrefn, fel dewis arall i'w darostwng gan rym milwrol a llymder cosb gyfreithiol.

2. Cydnabod bob amser bod pŵer yr heddlu i gyflawni'u swyddogaethau a'u dyletswyddau yn ddibynnol ar gymeradwyaeth gyhoeddus o'u bodolaeth, gweithredoedd a'u hymddygiad, ac ar eu gallu i ennill a chynnal parch y cyhoedd.

3. Cydnabod bob amser bod ennill a chynnal parch a chymeradwyaeth y cyhoedd yn golygu cael cydweithrediad parod y cyhoedd yn y dasg o sicrhau cydymffurfio â chyfreithiau.

4. Cydnabod bob amser bod y graddau y gellir sicrhau cydweithrediad y cyhoedd yn lleihau'n gymesur angenrheidrwydd defnyddio grym corfforol a gorfodaeth ar gyfer cyflawni amcanion yr heddlu.

NAW EGWYDDOR PLISMONA (*parhad*)

5. Ceisio a chynnal ffafriaeth y cyhoedd, nid trwy borthi barn gyhoeddus; ond trwy ddangos gwasanaeth diduedd llwyr i'r gyfraith yn gyson, mewn annibyniaeth polisi llwyr, a heb ystyriaeth i gyfiawnder neu anghyfiawnder cyfreithiau unigol, trwy gynnig gwasanaeth unigol a chyfeillgarwch parod i holl aelodau'r cyhoedd heb ystyried eu cyfoeth na'u safle cymdeithasol, trwy arfer cwrteisi a hiwmor da cyfeillgar yn barod; a thrwy gynnig aberth unigol yn barod wrth amddiffyn a diogelu bywyd.

6. Defnyddio grym corfforol dim ond pan ganfyddir bod perswadio, cynghori a rhybuddio yn annigonol i gael cydweithrediad y cyhoedd i raddau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfio â'r gyfraith neu i adfer trefn, a defnyddio'r grym corfforol lleiaf yn unig sy'n angenrheidiol ar unrhyw achlysur penodol ar gyfer cyflawni amcan yr heddlu.

7. Cynnal perthynas â'r cyhoedd bob amser sy'n rhoi realiti i'r traddodiad hanesyddol mai'r heddlu yw'r cyhoedd ac mai'r cyhoedd yw'r heddlu, a'r heddlu yw'r unig aelodau o'r cyhoedd sy'n cael eu talu i roi sylw amser llawn i ddyletswyddau sy'n ddyledus i bob dinesydd er budd lles a bodolaeth y gymuned.

8. Cydnabod bob amser yr angen i gydymffurfio'n dynn â swyddogaethau gweithredol yr heddlu, ac ymatal rhag hyd yn oed ymddangos i drawsfeddiannu pwerau'r farnwriaeth i ddial cam unigolion neu'r wladwriaeth, a barnu euogrwydd yn awdurdodol a chosbi'r euog.

9. Cydnabod bob amser mai prawf effeithlonrwydd yr heddlu yw absenoldeb trosedd ac anhrefn, ac nid tystiolaeth weledol o weithrediadau'r heddlu wrth ddelio â hwy.

Fe wnaeth Deddf yr Heddlu 1964, a ddeddfodd ar gyfer llawer o argymhellion y Comisiwn Brenhinol blaenorol, sefydlu'r hyn a elwir yn gyffredin 'y berthynas deiran' sy'n llywodraethu plismona yng Nghymru a Lloegr. Mae'r berthynas rhwng:

- Yr Ysgrifennydd Cartref a ddylai sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol gwasanaeth yr heddlu a chynnal safonau gofynnol darpariaeth y gwasanaeth;
- Awdurdod yr heddlu sy'n gyfrifol am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr heddlu dros ei ardal a thros ymgynghori â'r cyhoedd ar faterion plismona;
- Y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am effeithiolrwydd gweithredol yr heddlu.

Er bod y berthynas wedi datblygu dros y blynyddoedd, yn bennaf trwy Ddeddf yr Heddlu a Llysoedd Ynadon 1994 a Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, mae ei hegwyddorion sylfaenol yn parhau'n ganolog i lywodraethu plismona.

Yn ddiau, gwir yw dweud bod y gwasanaeth heddlu wedi cyflawni llawer iawn, gyda chyflawniadau nodedig:

- mae troseddu wedi gostwng yn gyson dros y 12 mlynedd diwethaf;
- mae'r tebygolrwydd o fod yn ddioddefwr trosedd yn is nawr nag ar unrhyw bwynt yn y 25 mlynedd diwethaf; ac
- mae Plismona Cymdogaeth wedi'i gyflwyno ym mhob ardal ar draws Cymru a Lloegr.

Rhoddwyd sylw i faterion sy'n gysylltiedig â diwylliant yr heddlu a thriniaeth cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig mewn dau ymchwiliad cyhoeddus, Adroddiad Scarman (1981) ac Ymchwiliad Stephen Lawrence (1999). Fe wnaeth yr olaf yn benodol arwain at newid sylweddol yn niwylliant y gwasanaeth fel y gall y gwasanaeth heddlu heddiw hawlio'n haeddiannol ei fod yn fwy ymatebol i anghenion dioddefwyr, tystion a chymunedau, er bod hwn yn parhau yn faes pwysig lle mae'n rhaid i ni barhau i fod yn wyliadwrus.

Hefyd bu rhaglen sylweddol o ddiwygiadau yn yr heddlu, sydd wedi gweld datblygiadau fel:

- cyflwyno swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu (SCCH) ac ehangu cyflogaeth staff yr heddlu mewn rolau ar bob lefel, lle nad yw pwerau gwarantedig yn ofynnol yn gyffredinol;
- sefydlu Partneriaethau Gostwng Troseddau ac Anhrefn (CDRPau), Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) a'r Asiantaeth Gwella Plismona Cenedlaethol (NPIA);
- cyflwyno Fframwaith Cymhwysedd Integredig a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth heddlu; a
- sefydlu'r Asiantaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOCA) ochr yn ochr â phwerau a gallu uwch i alluogi'r gwasanaeth i fynd i'r afael yn effeithiol â bygythiad terfysgaeth.

Mae mater trosedd ac anhrefn, fodd bynnag, yn ddiau yn parhau yn un o'r materion pwysicaf a wynebwn heddiw ym marn y cyhoedd.

Mae'r cyd-destun y mae'r heddlu yn gweithio ynddo yn parhau i newid, (ar gyfradd gyflymach fyth gellir dadlau), a chredaf fod hyn yn cyfeirio at y ffaith y bydd y deng mlynedd nesaf mor heriol â'r degawd diwethaf o leiaf. Nid oes gennyf amheuaeth, er enghraifft:

- bydd adnoddau'n 'dynn';
- bydd bygythiad terfysgaeth yn parhau;
- bydd angen i'r heddlu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith symud i fyny'r llif uwchlaw rhwydweithiau troseddu cyfundrefnol a delio â thechnoleg sy'n datblygu trwy integreiddio a chydweithredu mwy effeithiol;
- bydd y 'bwlch sicrwydd', (hyd yn oed os bydd troseddu'n gostwng, nid yw ofn troseddu yn lleihau o angenrheidrwydd), yn parhau'n ystyfnig o eang mae'n siwr;
- bydd cymunedau newydd yn parhau i ddatblygu;
- ni cheir gwared ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yn llwyr; a
- bydd troseddu â gwn, troseddu â chyllell a diwylliant gangiau ymhlith rhai o'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed yn gofyn am ymateb hirdymor, cyfannol.

Fy ngobaith i yw y bydd yr Adolygiad hwn yn helpu paratoi'r gwasanaeth i fod mewn sefyllfa gref i fynd i'r afael â'r heriau hyn, yn y dulliau canlynol:

- trwy leihau'r baich biwrocrataidd ar swyddogion a rhoi mwy o ryddid iddynt 'fynd i'r afael' â'r materion sydd o'r pwys mwyaf i gymunedau lleol;
- trwy 'wreiddio' plismona cymdogaeth yn iawn i ddelio'n fwy effeithiol â materion fel ymddygiad gwrthgymdeithasol; trais yn y cartref; camddefnyddio cyffuriau a chamddefnyddio alcohol;
- trwy wneud defnydd mwy effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael i ni, a phobl yw'r elfen allweddol, er mwyn nid yn unig cynnal perfformiad ond i'w wella'n barhaus hefyd; a
- thrwy wella mecanweithiau ar gyfer atebolrwydd lleol er mwyn galluogi pobl leol i gael rôl go iawn mewn pennu blaenoriaethau plismona ar gyfer eu hardal, a sicrhau bod eu heddlu lleol yn atebol am gyflawni.

Atodiad B – Crynodeb o'r Argymhellion

LLEIHAU BIWROCRATIAETH DDIANGEN

Argymhelliad 1:

Mae'n rhaid i'r Swyddfa Gartref, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) a Chymdeithas yr Awdurdodau Heddlu (APA) ddangos arweinyddiaeth genedlaethol glir ar fater anghymell risg ac ymrwymo i ffyrdd hollol newydd o weithio i feithrin diwylliant lle gall swyddogion a staff ail-ganfod eu disgresiwn i arfer barn broffesiynol. Dylai hwn gael ei fynegi'n ymarferol gyntaf mewn cytundeb ar y cyd rhwng y berthynas deir-ran a'r gwasanaeth, i'w gyflwyno erbyn haf 2008. (Gwelaf yr NPIA fel y prif gorff a ddylai gefnogi cyflawni'r nod hanfodol hwn yn barhaus.)

Argymhelliad 2:

Dylai'r llywodraeth edrych eto ar y flaenoriaeth a roddir i droseddau gwahanol yn y gyfundrefn perfformiad newydd ar gyfer yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (CSR) sydd ar fin ei gynnal, ac, yn benodol, targedau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer troseddau y deuir â nhw gerbron llys fel y gellir rhoi pwys mwy cymesur i'r lefelau difrifoldeb gwahanol a gymhwysir i droseddau.

Argymhelliad 3:

Dylai'r Swyddfa Gartref ail-ddiffinio troseddu treisgar i gynnwys yn unig y troseddau hynny sy'n achosi anafiadau corfforol neu lle mae'r bygythiad i beri anafiadau felly yn debygol o ddychryn person rhesymol.

Argymhelliad 4:

Dylai fod dadl wleidyddol amhleidiol ond dadl wirioneddol ar draws y pleidiau i gyfrannu at ddiwygiad o ystadegau troseddau wedi'u cofnodi, yn enwedig yn y meysydd a ddynodir ar hyn o bryd fel troseddu treisgar. Yn y cyd-destun hwn, bydd archwiliad manylach o'r rheswm pam nad yw cydweithwyr rhyngwladol yr heddlu yn cofnodi unrhyw beth tebyg i'r lefel gweithgarwch fel 'troseddu treisgar' yn hanfodol.

Argymhelliad 5:

Dylai ACPO weithio gyda'r NPIA i gynhyrchu ffurflenni safonol gorfodol ar sail y gofynion adrodd priodol gofynnol. Dylid cwblhau'r gwaith hwn erbyn haf 2008 a dylai heddluoedd eu mabwysiadu oni bai bod rhesymau lleol anorfod am eu hamrywio.

Argymhelliad 6:

Rwy'n argymell y dylai swyddogion ystyried p'un a oes modd datblygu, fel rhan o APACS, cyfres o ddangosyddion busnes ar gyfer gweithgareddau'r heddlu a allai ddangos pa mor effeithiol y mae'r gwasanaeth heddlu yn gweithio, a gweithredu fel meincnodau ar gyfer arfer da.

Argymhelliad 7:

Dylai'r Bwrdd Plismona Cenedlaethol gynnal adolygiad brys a sylfaenol o'r ADR a chynhyrchu adroddiad erbyn diwedd y flwyddyn. Dylid cyflwyno hwn ar y cyd â rhaglen ehangach y Swyddfa Gartref i leihau llif data y mae'n ymgymryd â hi fel rhan o raglen y llywodraeth i leihau biwrocratiaeth ar wasanaethau cyhoeddus llinell blaen.

Argymhelliad 8:

Dylai'r Swyddfa Gartref gychwyn adolygiad o Brisio Seiliedig ar Weithgarwch gyda sampl haenedig erbyn yr hydref 2008. Dylai'r NPIA gynnal ymchwiliad i addasrwydd Airwave i gasglu gwybodaeth am weithgareddau dyddiol swyddogion erbyn haf 2008.

Argymhelliad 9:

Bydd yr Adolygiad yn rhoi ystyriaeth frys i'r modd y gellir gweinyddu Stopio a Rhoi Cyfrif/Chwilio yn well, a lleihau'n sylweddol y fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig ag ef. Wrth wneud hynny, byddaf yn ymgynghori'n eang (ac fel rhan o fy Asesiad Effaith Cydraddoldeb presennol) gydag arweinwyr a rhan-ddeiliaid allweddol o ystod amrywiol o gymunedau a thu mewn i'r gwasanaeth.

Argymhelliad 10:

Ymddengys fod egwyddorion DGQP yn dangos addewid mawr o ran delio â chymesuredd mewn adeiladu ffeiliau achos. Dylai ACPO a Gwasanaeth Erlyn y Goron ar y cyd geisio canfod ffyrdd o weithredu'r egwyddorion hyn yn genedlaethol cyn gynted ag y bo modd, gan adeiladu ar waith cynharach y ddau gynllun peilot.

Argymhelliad 11:

Dylai'r Ysgrifennydd Cartref, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Twrnai Cyffredinol ystyried ar fyrder creu targed cyfrannol ar gyfer lleihau biwrocratiaeth, i'w rannu gan Wasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu. Dylai fod disgwyliad clir yn y targed y dylai'r amser y mae'r heddlu'n ei neilltuo i baratoi achosion gael ei leihau'n briodol drwy ffyrdd craffach o weithio, a nodi a lledaenu arfer gorau.

Argymhelliad 12:

Ar ôl cwblhau'r gwerthusiad peilot, dylid rhoi ystyriaeth ar fyrder i gyflwyno llysoedd rhithwir fesul cam, yn ddaearyddol ac o ran categorïau'r achosion y gallant ymdrin â nhw.

Argymhelliad 13:

Fel rhan o gyfnod nesaf yr Adolygiad, dylai'r MIPB nodi ar fyrder costau a buddion cyflwyno data symudol fesul cam ar hyd y gwasanaeth cyfan, ac argymell ffordd briodol ymlaen ar gyfer gwneud hynny.

PLISMONA CYMDOGAETH

Argymhelliad 14:

Dylai'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (ACLlL) a'r Swyddfa Gartref weithio gydag ACPO, NPIA, APA, y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol, y Gymdeithas Llywodraeth Leol ac IDeA i lunio cynllun gweithredu i integreiddio Plismona Cymdogaeth â Rheoli Cymdogaeth i'w gyhoeddi ar ddiwedd y flwyddyn (2007). Dylid creu tîm trawsadrannol/amlasiantaeth i gyflwyno'r cynllun. Byddaf yn dod yn ôl at y mater hwn yn fy adroddiad terfynol.

Argymhelliad 15:

Dylai'r Swyddfa Gartref ac ACLlL roi ystyriaeth ar fyrder i sefydlu cynllun peilot a fydd yn cael ei gynnal yn 2008-09 ar gydgyfrannu cyllidebau rhwng partneriaid diogelwch cymunedau lleol. Byddai hwn yn archwilio'r buddion y gellir eu cyflawni a'r heriau o'i gyflwyno fesul cam yn ehangach. Rwy'n rhagweld y bydd y cynlluniau peilot hyn yn ategol at gytundebau ardal lleol, ac yn fwy lleol na nhw.

Argymhelliad 16:

Dylai'r Swyddfa Gartref a'r ACLlL adolygu ar fyrder y dystiolaeth bresennol ar y buddion partneriaeth sy'n deillio o wreiddio Plismona Cymdogaeth o fewn ymagwedd Rheoli Cymdogaeth er mwyn cyfrannu at yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant sydd ar fin ei gynnal. Dylai'r adolygiad o dystiolaeth weithio o fewn egwyddorion y Strategaeth Gwelliant ac Effeithlonrwydd Genedlaethol ac adeiladu ar fesurau gwella presennol i yrru gwelliant yn ei flaen.

Argymhelliad 17:

Dylai APACS roi pwys priodol ar ganlyniadau Plismona Cymdogaeth, fel gweithio mewn partneriaeth, datrys problemau, hyder a bodlonrwydd cymunedol, a pha mor effeithiol y mae timau Plismona Cymdogaeth yn rhoi sylw i bryderon cymunedol yn ychwanegol at unrhyw fesurau'n ymwneud â gostwng troseddu. At hynny, dylai APACS barhau i unioni â'r fframwaith perfformiad llywodraeth leol newydd.

Argymhelliad 18:

Dylai'r Swyddfa Gartref a NPIA weithio gyda'r ACLlL i sicrhau bod y Set Dangosyddion Cenedlaethol Sengl yn cynnwys mesurau ar hyder a bodlonrwydd sy'n gymwys i Blismona Cymdogaeth. Bydd y rhain yn cael eu cwblhau yn fuan, a byddwn yn annog bod y gwaith hwn yn cael ei wneud fel mater o flaenoriaeth.

Argymhelliad 19:

Dylai'r Asiantaeth Gwella Plismona Cenedlaethol adolygu'r cyfan o'i hyfforddiant, dysgu a datblygu er mwyn sicrhau bod plismona cymdogaeth a sgiliau cysylltiedig wedi'u hintegreiddio'n gadarn o fewn ei rhaglen gyffredinol erbyn diwedd mis Ebrill 2008.

Argymhelliad 20:

Dylai prif gwnstabliaid sicrhau bod ymgyrchoedd recriwtio yn y dyfodol yn rhoi pwyslais priodol ar Blismona Cymdogaeth.

Argymhelliad 21:

Dylai Prif Gwnstabliaid geisio sicrhau bod y rheiny sy'n cael eu penodi yn benaethiaid BCUau, a'r rheiny sy'n cael eu penodi i swyddi eraill ym maes plismona cymdogaeth ac sy'n annatod i'r maes hwn yn aros yn y swyddi hyn am ddwy flynedd o leiaf cyn belled ag y bo modd. Dylai hyn gael ei fonitro gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ac awdurdodau heddlu.

Argymhelliad 22:

Dylai Rhaglen Blismona Cymdogaeth NPIA ymchwilio i ymarferoldeb rhoi mwy o gydnabyddiaeth i swyddogion a staff sy'n aros ar dimau plismona cymdogaeth am gyfnod maith.

Argymhelliad 23:

Dylai'r Swyddfa Gartref barhau i neilltuo cyllid SCCH ar gyfer 2008/9 i alluogi gwreiddio'u rôl o fewn timau Plismona Cymdogaeth.

Argymhelliad 24:

Dylai prif gwnstabliaid sicrhau y dylai'r ymrwymiad hyfforddiant ar gyfer SCCH sy'n gwneud cais llwyddiannus i ddod yn swyddogion yr heddlu ystyried hyfforddiant blaenorol y maent eisoes wedi'i gael, yn ogystal â'r wybodaeth a'r sgiliau y maent wedi'u caffael fel SCCH. Fe allai ymgeiswyr llwyddiannus fynd yn ôl yn gynt at rôl Plismona Cymdogaeth a gellid cyflawni hyn yn gyflymach gydag ymrwymiad hyfforddiant llai.

Argymhelliad 25:

Dylai'r Swyddfa Gartref ar y cyd â'r NPIA ystyried cyfleoedd i ddatblygu rôl yr SCCH, a dylent ystyried yn benodol cyfleoedd ehangach ac opsiynau gweithio hyblyg sydd ar gael yn y gwasanaeth heddlu. Mae hwn yn fater y byddaf yn dod yn ôl ato yn fy adroddiad terfynol.

Argymhelliad 26:

Dylai'r NPIA ymchwilio i ymarferoldeb y cynllun SCCH gwirfoddol ac adrodd ar y canfyddiadau erbyn haf 2008.

YR ADOLYGIAD O BLISMONA

GAN SYR RONNIE FLANAGAN

CRYNODEB AC ARGYMHELLION YR ADRODDIAD INTERIM

Produced by the Home Office September 2007. Ref: 283462.